## Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb

Cyflwyniad

Mae perygl gwirioneddol o hyd y bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, er bod Senedd y Deyrnas Unedig wedi pasio Deddf i geisio atal hynny.

Mae'r Ddeddf, a basiwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig cyn iddi gael ei haddoedi ar 10 Medi, yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog y DU ysgrifennu at yr UE i ofyn am estyniad i Erthygl 50 tan ddiwedd mis Ionawr 2020 os na fydd y Senedd wedi cytuno ar ffordd o ymadael â'r UE erbyn 19 Hydref 2019. Rhaid i bob un o'r 27 Aelod-wladwriaeth gytuno i'r estyniad.

Nes y byddwn yn gwybod i sicrwydd bod estyniad wedi'i gytuno a'i dderbyn, mae'r perygl o ymadael heb gytundeb erbyn 31 Hydref yn parhau'n bosibilrwydd real iawn. Hyd yn oed o gael estyniad er mwyn cynnal rhagor o drafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a 27 gwlad yr UE am Gytundeb Ymadael posibl, dichon mai'r unig beth y byddai hynny'n ei wneud – yn y senario gwaethaf – fyddai gohirio'r perygl o ymadael heb gytundeb am fis neu ddau.

Am y rheswm hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i baratoi ar gyfer ymadael heb gytundeb.

Mae effeithiau posibl ymadael heb gytundeb yn rhai pellgyrhaeddol. Yn y papur hwn, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r prif beryglon strategol i Gymru pe bai'r DU yn ymadael heb gytundeb, ac mae'n esbonio'r camau sy'n cael eu cymryd gennym i liniaru cymaint â phosibl ar y peryglon hynny. Mae'r rhain yn cynnwys y rhagdybiaethau yn nogfennau *Operation Yellowhammer* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 11 Medi.

Rydym wedi dweud o'r cychwyn y byddai ymadael â'r UE heb gytundeb yn drychinebus i Gymru, ac na ddylid ei ystyried yn ganlyniad derbyniol – rhaid ei osgoi ar bob cyfrif. Byddai'r effeithiau economaidd ar Gymru – ac ar economi ehangach y DU – yn affwysol, ond byddai canlyniadau ymadael heb gytundeb yn mynd lawer ymhellach na hynny, gan dreiddio drwy'r holl agweddau ar ein cymdeithas a'n cymunedau lleol. Nid yw'n datrys unrhyw beth nac yn rhoi diwedd ar yr ansicrwydd. Byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo am flynyddoedd, yn arbennig gan y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Er gwaethaf ein gwrthwynebiad chwyrn i strategaeth wleidyddol bresennol Llywodraeth y DU ar Brexit a fydd, yn ein barn ni, yn arwain at ymadael heb gytundeb, mae cyfrifoldeb arnom – fel Llywodraeth Cymru – i sicrhau bod busnesau, unigolion, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector mor barod ag sy'n ymarferol bosibl ar gyfer y posibilrwydd o ymadael heb gytundeb.

Ein cyfrifoldeb ni yw cynllunio a rhoi mesurau yn eu lle, i'r graddau y bo hynny'n bosib, i liniaru'r catalog hir o effeithiau a fyddai'n dod i'r amlwg o ymadael â'r UE heb gytundeb.

Mae'r camau lliniaru hynny i'w gweld yn y ddogfen hon, ac maent yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud eisoes, yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, a'r hyn y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol i geisio cyfyngu ar y niwed anochel a ddaw yn sgil Brexit heb gytundeb.

Mae maint y gwaith, a hefyd hyd a lled y gwaith, ar y cynllun hwn yn rhywbeth na welwyd ei debyg o'r blaen yn ein hanes fel llywodraeth ac fel cenedl. Ond mae'n bwysig hefyd ein bod yn cydnabod bod cyfyngiadau gwirioneddol ar yr hyn y gallwn ei wneud i leihau effaith lawn Brexit heb gytundeb.

Er enghraifft, er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd, materion sydd yn nwylo Llywodraeth y DU yw'r ysgogiadau macroeconomaidd a'r ymateb cyllidol sy'n ofynnol er mwyn dygymod ag effaith mor fawr â hyn. Yn yr un modd, er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw sicrhau bod modd parhau i fasnachu'n agored ac yn ddidrafferth ar draws ffiniau er mwyn sicrhau bod cyflenwad o feddyginiaethau ar gael. Gan fod dwy ochr i bob ffin, ni all hyd yn oed Llywodraeth y DU benderfynu ar ei phen ei hun faint o oedi ac amharu ar fasnach a fydd. Mae'r UE wedi dweud yn bendant na fydd yn trafod 'mân gytundebau' a allai leddfu rhai o'r rhwystrau newydd a fydd yn wynebu pobl, nwyddau a gwasanaethau os na fydd cytundeb, pan fydd y rhyddid i symud a masnach rydd yn dod i ben.

Y prif ffactor sy'n effeithio ar ein gallu i baratoi'n effeithiol yw Llywodraeth y DU ei hun, a'i pharodrwydd i ddarparu cyllid ychwanegol, i rannu gwybodaeth ac i weithio gyda ni mewn ffordd ystyrlon. Yn anffodus, dan Lywodraeth newydd y DU, mae'r cysylltiadau a'r llif o wybodaeth wedi lleihau cryn dipyn, wrth i'r gweithgarwch i baratoi ar gyfer ymadael heb gytundeb gynyddu'n sylweddol.

Mae'n paratoadau yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- Paratoadau ar draws y DU – gweithio gydag adrannau Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar brosiectau sy'n ymestyn tu hwnt i Gymru;
- Camau Llywodraeth Cymru – gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu ac i roi camau gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â pheryglon strategol Brexit heb gytundeb;
- Deddfwriaeth – sicrhau bod gan Gymru lyfr statud gweithredol ar gyfer y diwrnod ymadael;
- Argyfyngau sifil – datblygu ymateb i'r materion uniongyrchol lle mae'r brys mwyaf ac y mae angen mynd i'r afael â nhw ar fyrder.

Paratoadau ar draws y DU

Ni all Cymru baratoi ar gyfer Brexit, gan gynnwys Brexit heb gytundeb, ar wahân i weddill y DU. Mae'r mwyafrif llethol o'r systemau a'r prosesau y bydd angen eu diweddaru neu eu disodli os ceir Brexit heb gytundeb yn gweithredu ar draws y DU gyfan – er enghraifft sicrhau diogelwch bwyd ac iechyd anifeiliaid – ac mae'n bwysig bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli wrth i drefniadau newydd gael eu datblygu.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill roi cryn bwysau arni, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar raglen waith ar y cyd i fynd i'r afael â materion sy'n berthnasol ar draws y DU ac y mae angen i'r llywodraethau datganoledig gael mynegi barn yn eu cylch er mwyn bod yn barod erbyn y diwrnod ymadael, er enghraifft, trefniadau gofal iechyd ar gyfer gwladolion y DU ar wyliau yn yr UE. Rydym yn parhau i ymwneud yn helaeth â'r rhaglen honno. Mae nifer o'r prosiectau ar y cyd yn ymwneud â datblygu rhaglenni gwaith sy'n cael eu hariannu gan Gronfeydd yr UE. Mae Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y DU i drafod gyda ni ac egluro'i safbwynt ar drefniadau cyllido ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau na fydd Cymru yn colli'r un geiniog – yn unol â'r addewid a wnaed yn ystod y refferendwm ar yr UE.

Camau Llywodraeth Cymru

Mae canlyniadau ymadael â'r UE yn rhai pellgyrhaeddol, ac yn mynd i waethygu os bydd y DU yn ymadael heb gytundeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfres o beryglon strategol a allai godi os bydd y DU yn ymadael heb gytundeb. Rydym wedi cydweithio'n agos ag amryfal randdeiliaid allweddol, gan gynnwys busnesau, sefydliadau cynrychioladol, llywodraeth leol, y GIG, prifysgolion a'r trydydd sector i ddatblygu camau i liniaru pob un o'r peryglon hynny, gan greu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys y rhagdybiaethau a nodwyd yn nogfennau *Operation Yellowhammer* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 11 Medi.

Gallai rhai o'r peryglon godi cyn y diwrnod ymadael, ond mewn nifer o achosion, mae'n bosibl na fydd yr effeithiau llawn yn cael eu teimlo tan rhai wythnosau neu fisoedd ar ôl ymadael. Gallai rhai o'r peryglon effeithio ar sector cymharol gyfyng, a gallai eraill effeithio ar sawl sector. Mae bron pob un a nodir yn y ddogfen hon yn gysylltiedig â'i gilydd.

Mae'r amrywiaeth o ymatebion yn y ddogfen hon yn adlewyrchu ehangder yr her. Rydym hefyd yn cydnabod, mewn rhai achosion, ei bod yn bosibl nad oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer na'r gallu i ymyrryd yn uniongyrchol, ac yn yr achosion hynny, rydym yn dweud yn glir yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan Lywodraeth y DU.

Deddfwriaeth

Mae paratoi i ymadael â'r UE wedi golygu bod angen rhaglen sylweddol o ddeddfwriaeth. Er bod bwriad i gyfreithiau sy'n deillio o'r UE gael eu trosi, drwy Ddeddf yr UE (Ymadael), i lyfr statud y DU pan ddaw’n bryd ymadael, bu'n rhaid mynd ati i lunio llawer iawn o is-ddeddfwriaeth i ddiwygio'r corff hwnnw o gyfreithiau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Ni phrofwyd, ac ni chyflawnwyd, rhaglen waith debyg erioed o'r blaen. Nid yw Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad Cenedlaethol erioed wedi ceisio gwneud deddfwriaeth ar y raddfa hon mewn cyfnod mor fyr o'r blaen, ac nid yw Senedd y DU wedi gwneud hynny ychwaith, ers cyn cof.

Aed â 43 o Offerynnau Statudol (OSau) drwy'r Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'r rhaglen hon. Gwnaed 41 o OSau gan Weinidogion Cymru cyn y dyddiad gwreiddiol ar gyfer ymadael â’r UE ar 29 Mawrth, ac mae 2 arall wedi'u gosod ers hynny. Mae hyn wedi rhoi pwysau na welwyd ei debyg o'r blaen ar Lywodraeth Cymru ac ar y Cynulliad Cenedlaethol i ddrafftio ac i ystyried deddfwriaeth, i roi cydsyniad iddi, i graffu arni ac i'w phasio o fewn amserlen hynod o dynn. Bydd angen rhai OSau ychwanegol i adlewyrchu datblygiadau eraill yr UE ers y dyddiad ymadael gwreiddiol ym mis Mawrth.

Gosododd Llywodraeth y DU dros 600 o OSau Ymadael â’r UE gerbron y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad Gweinidogol ffurfiol i 147 ohonynt sy'n gymwys mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Er gwaethaf yr heriau hyn, llwyddwyd i gwblhau rhan helaeth o'r rhaglen ddeddfwriaethol erbyn y dyddiad ymadael gwreiddiol ar 29 Mawrth. Defnyddiwyd yr estyniad (tan 31 Hydref 2019) i wneud diwygiadau (“cywiriadau”) nad oeddent yn rhai tyngedfennol ond yr oedd angen eu gwneud yn sgil datblygiadau i gyfraith yr UE ers mis Mawrth, ac er mwyn diwygio mân wallau drafftio yn yr OSau presennol. Rydym bellach yn ystyried effaith addoedi Senedd y DU ar weddill y rhaglen.

Argyfyngau sifil

Mae cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau sifil yn galluogi llywodraethau ar bob lefel a'r gwasanaethau brys i ymateb i argyfyngau – trychinebau naturiol; tywydd eithafol; ymosodiadau gan derfysgwyr a methiant seilwaith. Yng nghyd-destun ymadael â’r UE, ein nod yw lleihau'r angen tebygol i ymateb i argyfwng sifil drwy weithio ar draws y llywodraeth, a gyda gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid eraill, i sicrhau, cyn belled â phosibl, bod mesurau lliniaru yn eu lle i osgoi unrhyw amharu sylweddol ar wasanaethau a chyflenwadau hanfodol os ceir Brexit heb gytundeb.

Fodd bynnag, yn unol ag unrhyw ddigwyddiad mawr, rhaid i gynlluniau ar gyfer Brexit heb gytundeb gynnwys ymateb effeithiol i argyfyngau sifil. Mae'n gwaith cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil yn cynnwys gwaith gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, ynghyd â sefydliadau sy'n bartneriaid inni, i sicrhau bod gennym drefniadau cadarn yn eu lle i fonitro ac i ymateb i unrhyw faterion sy'n ymwneud ag argyfyngau sifil posibl. Mae'r gwaith hwn yn digwydd dan brosiect *Yellowhammer.*

Cronfa Bontio'r UE

Yn ogystal â'r paratoadau yn y pedwar maes craidd hyn, rydym wedi sefydlu Cronfa Bontio'r UE, sy'n werth £50 miliwn, i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i sectorau ar draws Cymru er mwyn iddynt fedru cynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit. Mae hyn yn rhywbeth sy'n unigryw i Gymru ac mae wedi bod yn amhrisiadwy wrth wella paratoadau ledled Cymru.

Diben y Gronfa yw helpu sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i baratoi ar gyfer Brexit ac ar gyfer y newidiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi rhoi cyllid i awdurdodau lleol a'r heddlu, i sefydliadau sy'n cefnogi sectorau penodol ac i fusnesau penodol. Rydym yn cefnogi cymunedau ac unigolion, gan gynnwys gwladolion yr UE sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru.

Cyfathrebu

Rydym yn cydnabod, yn y cyfnod o ansicrwydd sydd ohoni, bod pobl Cymru yn troi atom gan ddisgwyl cyfathrebu clir, cryno a gwybodus. Mae hyn yn sylfaen i'n holl waith paratoi. Mae'n gwefan Paratoi Cymru yn ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth i bobl Cymru am y camau y gallant eu cymryd i baratoi ar gyfer Brexit, p'un a fydd cytundeb ai peidio. Mae'n cynnwys canllawiau a chyngor i ddinasyddion, sefydliadau a sectorau ar draws Cymru. Mae cyngor gan Lywodraeth Cymru ar wefan Paratoi Cymru, ac mae arni hefyd ddolenni at gyngor diweddaraf Llywodraeth y DU a chyrff eraill.

Mae gwefan Paratoi Cymru https://llyw.cymru/paratoi-cymru yn darparu cyngor i bobl a busnesau ynghylch paratoi ar gyfer Brexit. Mae gan y wefan wybodaeth i bobl sy'n byw yng Nghymru, a gwybodaeth am fusnesau a'r economi, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, addysg a sgiliau, yr amgylchedd ac amaethyddiaeth, cydlyniant cymunedol, gwasanaethau lleol a'r trydydd sector.

Ceir cyngor penodol hefyd ar Porth Brexit Busnes Cymru i helpu busnesau i baratoi ar gyfer Brexit ac i ddygymod â'r newidiadau a'r heriau sydd o'n blaen. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwmnïau yng Nghymru ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys masnachu rhyngwladol a chynllunio'r gweithlu. Mae hefyd yn cynnwys offeryn asesu i helpu busnesau i weld pa mor barod ydynt ar gyfer Brexit, gan argymell camau y gallant eu cymryd i gryfhau eu busnesau, a'u cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth eraill. Rydym wedi tynnu sylw hefyd at bum cam syml, cyflym y gall busnesau eu cymryd i baratoi ar gyfer Brexit, ac a fydd yn ddefnyddiol yn yr hirdymor.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i rannu gwybodaeth â nhw ac i gael clywed am eu prif bryderon, ac rydym yn sicrhau ein bod yn eu hystyried yn ein holl ymyriadau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd, y trydydd sector, busnesau, ffermwyr, undebau llafur, sefydliadau addysgol, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau i'w helpu i baratoi. Byddwn hefyd yn rhannu'r cyngor diweddaraf. Rydym wedi sefydlu nifer o grwpiau rhanddeiliaid sy'n canolbwyntio ar Brexit, ac mae'r rhain wedi bod o gymorth amhrisiadwy wrth inni fynd ati i ddatblygu'n cynllun gweithredu.

## Cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer ymadael heb gytundeb

| Y mater dan sylw | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| **Perygl strategol: Cythrwfl gwleidyddol yn y DU,** gan beryglu dyfodol y Deyrnas Unedig fel undeb, ac arwain at ddiffyg gallu gwleidyddol i ymdrin â goblygiadau uniongyrchol ac ehangach ymadael heb gytundeb. Gallai hyn ychwanegu at ddifrifoldeb pob un o'r peryglon sy'n cael eu disgrifio isod. | | |
| Cefnogi sefydlogrwydd y DU | Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlogrwydd y DU drwy ymgysylltiad adeiladol gyda llywodraethau ar lwyfan y DU, ar sail un i un ac mewn cyfarfodydd ffurfiol gan gynnwys Cyfarfod Llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, sy'n cynnwys Prif Weinidogion gweinyddiaethau datganoledig a'r DU, y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau Ewropeaidd, Fforwm y Gweinidogion, grwpiau rhyngweinidogol a chyfarfodydd Pwyllgor Ymadael Cabinet y DU os ceir gwahoddiad.<br><br>Dadlau'r achos o blaid undeb y DU, gan bwyso ar Lywodraeth y DU i ddatblygu gwell systemau ar gyfer rheolaeth fewnol y DU. | Llywodraeth Cymru – cyfrifoldeb dros ei safbwynt ei hun ar y llwyfan cenedlaethol. |
| Llywodraeth Cymru yn arddangos arweinyddiaeth yng Nghymru | Llywodraeth Cymru i barhau i gynnig arweinyddiaeth yng Nghymru, gan weithio gydag eraill yn y Cynulliad Cenedlaethol i hybu buddiannau Cymru mewn perthynas â chanlyniad proses Brexit.<br><br>Llywodraeth Cymru i barhau i fwrw ymlaen â chamau gweithredu er mwyn cynllunio ar gyfer ymadael heb gytundeb, ar lefel y DU, ar lefel Cymru ac ar lefel ranbarthol.<br><br>Llywodraeth Cymru i barhau i roi gwybod i'r sector cyhoeddus ehangach, i gyrff cyflawni ac i randdeiliaid allanol am gamau gweithredu allweddol i baratoi ar gyfer ymadael heb gytundeb. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol yn Llywodraeth Cymru | Strwythurau llywodraethu mewnol yn eu lle ar lefel gweinidogol, gyda'r trafodaethau cabinet wythnosol yn cael eu hategu gan gyfarfodydd wythnosol<br>is-bwyllgor y Cabinet ar bontio Ewropeaidd. Cynlluniau yn eu lle i ddwysáu'r cyfarfodydd hyn yn ystod y cyfnod yn arwain at y diwrnod ymadael.<br><br>Strwythurau llywodraethu mewnol yn eu lle ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru gydag eitemau ar Brexit ym mhob cyfarfod bwrdd; cyfarfodydd o'r pwyllgor gweithredol ar Brexit bob pythefnos a chyfarfodydd wythnosol o'r grwpiau swyddogion trawsbynciol. Cynlluniau yn eu lle i ddwysáu'r cyfarfodydd hyn yn ystod y cyfnod yn arwain at y diwrnod ymadael. | Llywodraeth Cymru |
| **Perygl strategol: Niwed i enw da.** Os bydd Ewrop a'r gymuned ryngwladol yn colli hyder yn y DU ac yn y ffordd y mae’n cael ei llywodraethu os ymadewir â'r UE yn ddisymwth heb gytundeb, gallai hynny achosi niwed yn syth, a niwed parhaus, i enw da’r DU yn rhyngwladol. Gallai hynny waethygu'r effeithiau a amlinellir isod. | | |
| Cynnal cysylltiadau rhyngwladol Cymru | Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn weithgar mewn rhwydweithiau rhyngwladol, gan gyflwyno delwedd gadarnhaol a phenderfynol o Gymru fel gwlad agored sy'n barod am fusnes.<br><br>Mae'r *Strategaeth Ryngwladol* ddrafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd; bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi fis Tachwedd. Bydd yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â rhwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol a gyda gwledydd a rhanbarthau strategol, gan sicrhau ein bod yn cadw’n henw da fel partner adeiladol a chenedl sy’n troi ei golygon tuag allan.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal swyddfeydd rhyngwladol yng Ngwlad Belg, Tsieina, Canada, Gweriniaeth Iwerddon, | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Ffrainc, yr Almaen, India, Japan, Qatar, yr Emiraethau Arabaidd Unedig ac UDA.<br><br>Byddwn yn parhau i gynnal a datblygu cysylltiadau rhyngwladol drwy ymweliadau Gweinidogol, yn arbennig yn ystod y misoedd yn arwain at y diwrnod ymadael ac yn syth ar ei ôl. Ymysg yr ymweliadau diweddar mae'r Almaen, Ffrainc a'r Unol Daleithiau. | |
| | Cymeradwywyd cais o dan Gronfa Bontio'r UE i gynorthwyo sefydliadau Cymru i gynnal a chryfhau cysylltiadau gyda phartneriaid strategol allweddol yn Ewrop yng nghyd-destun Brexit. Bydd y gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar; iechyd rhyngwladol, diwylliant a'r Gymraeg, gwyddoniaeth ac arloesi, cynaliadwyedd a'r agenda gwaith teg, a symudedd dysgwyr mewn addysg bellach. | Llywodraeth Cymru |
| | Dyfeisiwyd cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer Gweinidogion cyn, ar ac ar ôl y diwrnod ymadael i bwysleisio bod Cymru yn wlad bositif a chroesawgar, gan gynnwys ymgyrch farchnata a rhaglen o ddigwyddiadau ar y cyd â phartneriaid yn Japan, yr Almaen ac Iwerddon. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Perygl strategol: Amharu'n ddifrifol ar drafnidiaeth i bobl ac ar gludo nwyddau wrth y ffin.** Gan y bydd angen gwiriadau ychwanegol pan na fydd y DU bellach yn rhan o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau. Mae hyn yn arbennig o wir ar y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth, mannau croesi'r Sianel a phorthladdoedd, gan gynnwys porthladdoedd yng Nghymru, sy'n allweddol i fasnach gydag Iwerddon. Gellid gweld oedi mewn meysydd awyr hefyd. Gallai unrhyw oedi gael effaith sylweddol yn ei dro ar y rhwydwaith drafnidiaeth ehangach, er enghraifft yr angen i "stacio" cerbydau ar y priffyrdd ac ar ffyrdd ger porthladdoedd.<br><br>Mae nifer o'r peryglon economaidd a'r peryglon eraill a amlinellir isod yn gysylltiedig â'r mater cwbl hanfodol o sicrhau bod nwyddau'n llifo'n esmwyth drwy'r prif borthladdoedd – gallai unrhyw oedi achosi problemau o ran cael gafael ar rai mathau o gynhyrchion bwyd (ffres) a meddyginiaethau, a chael effaith niweidiol ar rai sectorau masnach. Mae rhagdybiaethau Yellowhammer a ryddhawyd yn ddiweddar yn awgrymu gostyngiad o 40% - 60% yn llif y nwyddau sy'n croesi'r ffiniau o gymharu â'r lefelau presennol os na fydd mesurau lliniaru. Gallai hyn barhau am hyd at dri mis ar ôl y diwrnod ymadael cyn gwella i tua 50-70%.<br><br>Dim ond rhan o'r darlun fyddai unrhyw gamau lliniaru y byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu eu cymryd yn y meysydd hyn, gan y bydd yr effeithiau hefyd yn ddibynnol ar y dulliau gweithredu a fabwysiedir gan 27 gwlad yr UE ac yn yr Undeb Ewropeaidd – bydd oedi hir i draffig sy'n gadael y DU o ganlyniad i fesurau rheoli caeth yn Ffrainc ac Iwerddon yn cael effaith ddifrifol ar draffig sy'n dod i mewn, er enghraifft. | | |
| Paratoadau'r Porthladdoedd | Cynlluniau wrth gefn yn eu lle ar gyfer Caergybi, gan gynnwys defnyddio safle RoadKing ar gyfer cerbydau cludwyr nwyddau os na fydd lle yn y porthladd, a pharatoadau yn eu lle i stacio loriau ar yr A55 os bydd angen. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson i ystyried unrhyw wybodaeth newydd sydd ar gael.<br><br>Rydym yn edrych i weld a oes angen darparu cyfleuster ychwanegol i gludwyr nwyddau sy'n cyrraedd o Ddulyn fedru gorffwys, os bydd safle Roadking mewn defnydd.<br><br>Ni ddisgwylir i'r gwiriadau ychwanegol a fydd yn cael eu cyflwyno ar ffiniau/gan awdurdodau tollau achosi problemau traffig ym mhorthladdoedd De-orllewin Cymru, sydd â digon o le i gadw loriau yn y porthladd neu gerllaw, ond rydym yn parhau i adolygu hyn yn fanwl er | Llywodraeth Cymru – mewn perthynas â rheoli traffig.<br><br>Llywodraeth y DU – mewn perthynas â rheoli ffiniau. |

| | | |
|---|---|---|
| | mwyn sicrhau bod ein rhagdybiaethau'n parhau'n gadarn, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd gyda fforymau lleol Cymru Gydnerth.<br><br>Cyfarfodydd trafod misol gyda Maes Awyr Caerdydd i sicrhau bod newidiadau angenrheidiol, fel newidiadau i arwyddion, yn eu lle.<br><br>Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i wella trafodaethau a rhannu gwybodaeth am y mater hanfodol bwysig hwn. | |
| Mewnforio a dosbarthu meddyginiaethau a radioisotopau | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gynllunio ar gyfer mewnforio a dosbarthu nwyddau hanfodol, gan gynnwys meddyginiaethau a radioisotopau.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru fynediad at gontractau sydd wedi'u caffael gan Lywodraeth y DU i gludo nwyddau'n gyflym a chludo nwyddau iechyd ar draws y sianel sydd wedi'u neilltuo ar gyfer meddyginiaethau hanfodol, gan gynnwys radioisotopau,<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn aelod gweithredol o fforwm cyflenwi'r gweinyddiaethau datganoledig, sy'n cynnwys Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru yn aelod o'r Fforwm Penderfyniadau Dosbarthu Cenedlaethol, a fydd yn blaenoriaethu meddyginiaethau os bydd gwrthdaro yn y galw.<br><br>Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i amlygu meini prawf a threfniadau blaenoriaethu. | Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros nwyddau sy'n croesi ffiniau a thros gaffael.<br><br>Llywodraeth y DU a'r diwydiant fferyllol sy'n gyfrifol am sicrhau parhad y cyflenwad o feddyginiaethau i Gymru. |
| Mewnforio a dosbarthu dyfeisiau meddygol a deunyddiau traul clinigol | Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yng nghynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer mewnforio a dosbarthu nwyddau hanfodol, gan gynnwys dyfeisiau meddygol a deunyddiau traul clinigol. | Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael gofod storio ychwanegol ac wedi sicrhau cyflenwad 12-15 wythnos o nwyddau i gryfhau'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. | nwyddau sy'n croesi ffiniau.<br><br>Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am barhad y cyflenwad o ddyfeisiau meddygol a deunyddiau traul i GIG Cymru a gofal cymdeithasol. |
| Mewnforio a dosbarthu meddyginiaethau milfeddygol | Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yng nghynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer mewnforio a dosbarthu meddyginiaethau milfeddygol, er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn unig yw hyn.<br><br>Mae system yn ei lle ar draws y DU i ddygymod ag unrhyw bosibilrwydd o lefelau isel o feddyginiaethau, er mwyn sicrhau cyflenwad digonol.<br><br>Sefydlwyd banc brechlynnau, er mwyn helpu i atal afiechydon rhag lledaenu os ceir unrhyw achosion ohonynt. | Llywodraeth y DU |
| Cyflenwad bwyd cyffredinol a dosbarthu bwyd | Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd telegynadledda rheolaidd gyda Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r diwydiant i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu gwarchod mewn cynlluniau ar draws y DU ar gyfer y cyflenwad bwyd cyffredinol. | Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y cyflenwad bwyd i'r DU.<br><br>Llywodraeth Cymru sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym wedi holi ac wedi cael sicrwydd gan bob un o'r prif archfarchnadoedd ynglŷn â chyflenwadau bwyd i Gymru, yn arbennig i'r cymunedau mwyaf anghysbell.<br><br>Cynhaliwyd dadansoddiad o leoliadau archfarchnadoedd a siopau cyfleustra fel y bo modd ymateb mewn argyfwng.<br><br>Sicrhawyd cytundeb i gynnal ymarfer o amgylch y bwrdd ar lefel y DU, er mwyn profi ymateb ar y cyd i unrhyw darfu ar y cyflenwad bwyd ac ymateb posibl y cyhoedd. Disgwylir iddo gael ei gynnal ddiwedd mis Medi.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun cyfathrebu yn barod ar gyfer sefyllfa o ymadael heb gytundeb, i roi gwybodaeth i'r cyhoedd a rhanddeiliaid am unrhyw gamau y gallent eu cymryd, ac i greu system ar gyfer cyfathrebu'r ddwy ffordd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. | gyfrifol am y cyflenwad yng Nghymru. |
| Cyflenwad bwyd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol | Cynhaliwyd adolygiad o'r paratoadau iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Ebrill, a gadarnhaodd fod lefel dda o sicrwydd. Bydd yr ymarfer hwn yn cael ei ailadrodd cyn mis Hydref.<br><br>Mae effaith bosib unrhyw chwyddiant i brisiau bwyd ar gyllidebau yn cael ei fonitro.<br><br>Mae cyngor yn cael ei roi i ysbytai a darparwyr gofal cymdeithasol ystyried addasu bwydlenni os bydd effaith ar y cynhwysion a fydd ar gael os ceir Brexit heb gytundeb. | Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am barhad y cyflenwad bwyd i'r DU ac ar draws y DU. |
| Cyflenwad bwyd mewn ysgolion | Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd paratoi rheolaidd gydag awdurdodau lleol i fonitro datblygiadau a rhoi sicrwydd am gyflenwad | Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol |

| | | |
|---|---|---|
| | bwyd i ysgolion. Mae awdurdodau lleol wedi’u sicrhau y bydd modd iddynt barhau i ddarparu bwyd mewn ysgolion os bydd Brexit heb gytundeb. Mae’n bosibl y bydd angen diwygio bwydlenni, ond byddant yn parhau i gynnig bwyd iach mewn ysgolion.<br><br>Rydym yn gweithio’n agos gydag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau addysg eraill ar lefel eu paratoadau.<br><br>Rydym wedi sefydlu sianelau cyfathrebu cyson gydag awdurdodau lleol a darparwyr eraill er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw faterion sy’n codi.<br><br>Byddwn yn monitro unrhyw effaith y gallai cynnydd mewn pris neu brinder bwyd neu danwydd eu cael ar y sector.<br><br>Ym mis Chwefror, anfonwyd arolwg manwl at reolwyr arlwyo pob awdurdod lleol i gael darlun cynhwysfawr o baratoadau awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer Brexit heb gytundeb. Mae’r arolwg yn cael ei ddiweddaru i sicrhau bod yr wybodaeth yn dal i fod yn gyfredol. | am y cyflenwad bwyd i'r DU.<br><br>Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cyflenwad yng Nghymru.<br><br>Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu prydau bwyd mewn ysgolion a gynhelir. Fodd bynnag, mae nifer bach o ysgolion wedi optio allan o wasanaethau arlwyo awdurdodau lleol. |
| Cyflenwad bwyd yn y trydydd sector | Mae Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru wedi cyhoeddi canllawiau *Getting Brexit Ready* ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector. Mae’r canllawiau hynny’n cynnwys gwybodaeth am baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb a'r effaith ar gyflenwadau.<br><br>Mae wedi'i ddosbarthu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. | Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y cyflenwad bwyd i'r DU. |

| | | |
|---|---|---|
| Cemegion trin dŵr | Mae cynlluniau wrth gefn yn eu lle i liniaru'r peryglon o amharu ar y cyflenwad o gemegion ar gyfer y cyflenwad dŵr. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu profi.<br><br>Grŵp ymgysylltu rheolaidd gyda Defra a'r diwydiant, er mwyn ceisio sicrwydd am y cyflenwad. | Llywodraeth Cymru |
| Cemegion eraill | Gweithio'n agos gyda Defra, y gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i weithredu trefn newydd y DU sydd angen ei sefydlu yn lle system REACH yr UE.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar y system REACH IT, ac yn gweithio i sicrhau bod y rheoliadau gofynnol ar gemegion a phlaladdwyr yn eu lle erbyn y diwrnod ymadael. | Llywodraeth Cymru |
| Nwyddau traul eraill (er enghraifft pethau ymolchi, cynhyrchion mislif) | Rydym wedi holi ac wedi cael sicrwydd gan yr holl brif archfarchnadoedd am lefelau'r stoc. | Llywodraeth Cymru |
| Cyflenwad Ynni | Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i asesu effaith bosibl prisiau uwch ar aelwydydd, yn arbennig ar grwpiau agored i niwed a gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Mae Llywodraeth y DU a'r diwydiant wedi rhoi strwythurau yn eu lle i fonitro'r cyflenwad a phrisiau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sicrwydd ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU ynghylch capio prisiau ynni ar gyfer defnydd domestig. | Llywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| Materion ehangach yn ymwneud â thrafnidiaeth (er enghraifft trwyddedau cludo nwyddau, teithio awyr) sy'n berthnasol i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. | Gwaith yn parhau gyda chymdeithasau masnach y diwydiant cludo nwyddau i ddeall ac i fynd i'r afael â phryderon cludwyr Cymru am Brexit.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i gynnal asesiad risg o gadernid economaidd y sector cludo nwyddau, gan fod y sector hwn yn hanfodol i lwyddiant cynifer o rai eraill.<br><br>Cadw mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU ynglŷn â gwasanaethau awyr, er mwyn asesu goblygiadau i Faes Awyr Caerdydd o ganlyniad i drefniadau a wneir yn y dyfodol mewn perthynas â theithiau awyr a thrwyddedau awyrennau. | Llywodraeth y DU |
| **Perygl strategol: Cythrwfl economaidd.** Y posibilrwydd y bydd Brexit yn amharu'n sylweddol ar fasnach ryngwladol (yn enwedig, ond nid yn unig, gyda'r UE), yn effeithio ar fusnesau allforio, ar gadwyni cyflenwi mewnforio, ac ar fewnfuddsoddi. Gallai hynny beryglu cynaliadwyedd rhai busnesau a chael effaith negyddol ar swyddi a chyflogau. Gallai'r effeithiau ar y gweithlu waethygu'r sefyllfa (gweler isod). Rydym eisoes yn teimlo canlyniadau economi wannach o ganlyniad i dair blynedd o ansicrwydd Brexit – mae Banc Lloegr wedi amcangyfrif bod aelwydydd eisoes £1,000 ar eu colled bob blwyddyn o ganlyniad i Brexit, o gymharu â chyn refferendwm yr UE. Gallem weld effeithiau pellach yn gyflym iawn ar ôl y diwrnod ymadael, gyda effeithiau eraill yn dod i'r amlwg dros amser. Mae gwerth y bunt yn debygol o syrthio ymhellach o gymharu â mathau eraill o arian – mae gwerth Sterling wedi syrthio'n sylweddol ers y refferendwm ac wrth i'r perygl o Brexit heb gytundeb ddwysáu. Gallai hynny arwain, dros amser, at chwyddiant uwch ar rai mathau o nwyddau ac at lai o dwf economaidd, gan roi ergyd galed i aelwydydd incwm isel ac arwain at ragor o anghydraddoldeb. Mae hyn oll yn awgrymu y bydd effeithiau cronnol ar aelwydydd incwm isel yn arbennig, gyda swyddi a lefelau cyflog yn cael eu peryglu ar adeg pan fydd prisiau rhai nwyddau o bosib yn cynyddu hyd at 10%. | | |
| Ysgogiad Economaidd | Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU a banciau manwerthu i sicrhau bod digon o gyfalaf ar gael ar gyfer cyllid busnes.<br><br>Fframwaith ymateb cyflym yn ei le i flaenoriaethu ac ysgogi cymorth i fusnesau sy'n wynebu anawsterau. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i drefnu cyllid ychwanegol er mwyn darparu cymorth ariannol ehangach ar gyfer busnesau, os bydd angen.<br><br>Mae cynllun ar waith i ystwytho'r trefniadau yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar feysydd heb eu datblygu'n ddigonol, fel yr Economi Sylfaenol. | |
| Prosiect Kingfisher (prosiect trawslywodraethol dan arweiniad Llywodraeth y DU i roi sylw i'r disgwyliad y bydd cwmnïau penodol a grwpiau o gwmnïau yn y DU o bosib yn dioddef effeithiau economaidd o ganlyniad i Brexit ac o flaen llaw yn sgil y potensial ar gyfer Brexit heb gytundeb. | Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ym Mhrosiect Kingfisher, dan arweiniad Llywodraeth y DU, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chytuno ar egwyddorion ar gyfer ymateb i fusnesau a allai fod mewn trybini.<br><br>Pwyso ar Lywodraeth y DU am ddull gweithredu cadarn i ddarparu cymorth ariannol sy'n ddigonol, yn rhesymol ac yn gymesur, yn hytrach na dibynnu ar y farchnad i addasu wrth i gwmnïau fethu. | Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU |
| Mynediad at gyllid i fusnesau Cymru | Mae gan Fanc Datblygu Cymru gyllid i gefnogi busnesau bach, gan gynnwys £130m o Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru, a lansiwyd yn 2016 o ganlyniad uniongyrchol i benderfyniad y DU i ymadael â'r UE.<br><br>Mae Gweinidogion yn cyfarfod â'r Banc Datblygu i sicrhau bod modd defnyddio adnoddau mewn ffordd hyblyg i helpu gyda phroblemau llif arian mewn busnes sydd fel arall yn hyfyw. Mae'r banc yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r archwaeth am risg a'r gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diwallu'r angen dan amgylchiadau eithriadol.<br><br>Ar gyfer busnesau newydd, mae micro-fenthyciadau o £1,000 - £50,000 ar gael, a benthyciadau a chyllid ecwiti o £50,000 - £5m. Mae benthyciadau sydyn o £1,000 - £10,000 ar | Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU. |

| | | |
|---|---|---|
| | gael i helpu busnesau i dyfu. Mae benthyciadau tymor byr sy'n dechrau o £150,000 ar gael ar gyfer prosiectau eiddo yng Nghymru sy'n rhai hyfyw yn fasnachol. Mae cyfalaf cychwynnol a chyfalaf twf ar gael i gynorthwyo busnesau technoleg i dyfu.<br><br>Mae cynlluniau yn eu lle i symud staff i fodloni'r galw cynyddol yn sgil, er enghraifft, Brexit heb gytundeb. | |
| Paratoadau a Chadernid Busnesau | Mae Porth Brexit Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth i fusnesau ar sut y gallant baratoi ar gyfer Brexit.<br><br>Mae cronfa cydnerthedd busnes gwerth £9.2m yn ei lle, i roi cymorth i gwmnïau unigol. Mae'n ychwanegol at y trefniadau ariannol presennol, gan gynnwys Cronfa Dyfodol yr Economi.<br><br>Mae cynllun eang i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ei le ac yn cael ei gyflawni er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng busnesau a llywodraeth.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Meiri Metro'r DU ac arweinwyr awdurdodau lleol er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymateb i faterion trawsffiniol. | Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU. |
| Cyngor allforio a chymorth gweinyddol | Cymorth i allforio yn cael ei ariannu drwy Gronfa Bontio'r UE.<br><br>Mae Porth Brexit Busnes Cymru yn darparu cyngor i fusnesau i'w helpu i baratoi ar gyfer Brexit ac yn cynnig offeryn asesu.<br><br>Llinell gymorth Busnes Cymru (0300 060 3000) yw'r pwynt cyswllt cyntaf i fusnesau ac mae cynlluniau yn eu lle i ddygymod â chynnydd sylweddol yn nifer y galwadau. | Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer unigolion (drwy'r rhaglen ReAct ar gyfer y bobl hynny sy'n wynebu colli eu swyddi) a chyflogwyr (drwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg) os bydd busnesau'n methu'n sylweddol | Mae Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn ei lle i helpu cyflogwyr.<br><br>Mae nifer o dimau cymorth, sy'n hyblyg a pharod eu hymateb, yn eu lle, a gellir eu cyfeirio'n gyflym er mwyn cefnogi busnesau yn ôl y gofyn.<br><br>Sefydlwyd Tasglu Cyflogadwyedd Gyrfa Cymru gydag Adran Gwaith a Phensiynau'r DU er mwyn sicrhau trafodaethau traws-lywodraethol a chysondeb wrth ymateb i effeithiau Brexit. | Llywodraeth Cymru |
| Cymorth i unigolion / aelwydydd / cymunedau pan fo niwed economaidd yn effeithio ar dlodi neu galedi. | Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y system les yn ymateb i effeithiau posibl, gan helpu aelwydydd incwm is.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol, sy'n rhoi cymorth ariannol tymor byr i bobl mewn argyfwng ariannol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i ehangu cwmpas daearyddol banciau bwyd ac i wella'u capasiti.<br><br>Mae adolygiad o effaith Brexit ar raglenni cyllido Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar y mannau cywir i gael yr effaith fwyaf bosibl ar fywydau plant sy'n byw mewn tlodi, sydd mewn gwaeth sefyllfa oherwydd Brexit.<br><br>Mae lliniaru tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth ym mhroses cynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae rheoliadau eu lle sy'n cyflwyno meini prawf diwygiedig ar gyfer bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu'n gyson os bydd chwyddiant. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth i'r trydydd sector | Gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sicrhau bod sefydliadau yn y trydydd sector yn asesu effeithiau Brexit, gan gynnwys effeithiau posibl ar eu gweithlu a'r posibilrwydd o fwy o alw gan ddinasyddion ar adeg gythryblus.<br><br>Rydym yn parhau i roi cyllid craidd i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru arwain y gwaith o adeiladu capasiti yn y sector. | Llywodraeth Cymru |
| **Perygl strategol:** Effeithiau ar draws yr economi sy'n debygol o fod fwyaf amlwg os byddwn yn ymadael â'r UE heb gytundeb, ond gallai ymadael heb gytundeb hefyd arwain at amrywiadau mawr o ran yr **effeithiau ar sectorau ac ar ranbarthau.**<br><br>Gallai amryfal ffactorau fod yn gyfrifol am hynny, gan amrywio o bwysigrwydd cymharol sectorau penodol o Farchnad Sengl yr UE a chadwyni cyflenwi integredig di-dor, i fudo a thariffau'r DU gyda'r UE a gwledydd eraill. Yng Nghymru, gallai'r sectorau ffermio a physgodfeydd gael eu taro'n arbennig o galed, gan arwain at heriau cymdeithasol ac economaidd i gymunedau gwledig ac at oblygiadau ehangach, megis goblygiadau posibl i les anifeiliaid, tra bydd sectorau gweithgynhyrchu uwch (yn enwedig y sectorau awyrofod a modurol) yn agored iawn i niwed os terfir ar y cadwyni cyflenwi sy’n dosbarthu nwyddau mewn union bryd; a gallai rhai sectorau gwasanaeth (er enghraifft diwydiannau creadigol neu rannau o’r gwasanaethau ariannol) hefyd gael eu heffeithio’n sylweddol. Gallai unrhyw gynnydd mewn chwyddiant effeithio’n sylweddol ar ddarparwyr gofal cymdeithasol. Gallai llai o fynediad at gyllid yr UE, yn arbennig ar gyfer ymchwil, ynghyd â chwymp yn nifer y myfyrwyr, fod yn ffactor sy’n ansefydlogi sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach ar draws Cymru. | | |
| Effeithiau gofodol tebygol ar gymunedau | Gwnaed gwaith mapio cychwynnol ac fe'i rhannwyd gyda phartneriaid cyflawni allweddol. Byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i ddigwyddiadau fynd rhagddynt. | Llywodraeth Cymru |
| Effaith ar fusnesau gweithgynhyrchu agored i niwed, yn arbennig effeithiau ar y gadwyn gyflenwi munud olaf | Gwaith mapio o’r effeithiau ar gadwyni cyflenwi a mannau gwan gyda Llywodraeth Cymru, fforymau’r sectorau (moduro ac awyrofod) yn ogystal â dadansoddiad gofodol.<br><br>Cyfathrebu rheolaidd gyda busnesau ar baratoadau, a mesurau cyllido yn eu lle drwy, er enghraifft, y Gronfa Cydnerthedd Busnes a Chronfa Dyfodol yr Economi. Cyd-fynd yn agos â gwaith cynllunio ar drafnidiaeth. | Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth ar gyfer y sector cig coch | Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu cynllun wrth gefn ar draws y DU mewn ymateb i'r effeithiau posibl ar y sector defaid.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi ffermwyr a thalu costau'r cynllun hwn os bydd effaith sylweddol ar y farchnad. | Cyfrifoldeb uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru ond gweithio mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU. |
| Cymorth ar gyfer y sector pysgodfeydd | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu cynllun wrth gefn mewn ymateb i'r effeithiau posib ar y sector pysgodfeydd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi pysgotwyr a thalu costau'r cynllun hwn os bydd effaith sylweddol ar y farchnad. | Cyfrifoldeb uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru ond gweithio mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU. |
| Rheolaeth a gorfodaeth o weithgarwch pysgota yn nyfroedd Cymru | Datblygwyd protocolau gyda'r awdurdodau perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth y DU, yr Heddluoedd a'r Llynges Frenhinol. | Cyfrifoldeb uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU. |
| Rheoli gwastraff/tirlenwi | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu cynllun wrth gefn i ddygymod â gwastraff os bydd unrhyw darfu ar y trefniadau allforio presennol.<br><br>Gwnaed trefniadau gydag<br>Aelod-wladwriaethau'r UE i sicrhau bod hysbysiadau allforio gwastraff yn parhau i gael eu cydnabod. | Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio nodi a monitro materion wrth iddynt godi. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â'r cyfrifoldeb uniongyrchol dros gyflawni. |
| Iechyd a lles ffermwyr | 10,000 copi o *Ffit i Ffermio* wedi'u hargraffu.<br><br>Dyfarnwyd grant i Ymddiriedolaeth DPJ i estyn ei gwasanaeth cwnsela un i un, er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar draws Cymru. Bydd y grant hefyd yn helpu i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl i filfeddygon a chwmnïau bwyd anifeiliaid er mwyn iddynt fedru cyfeirio ffermwyr at y ffynonellau cymorth gorau.<br><br>Sefydlwyd partneriaeth elusennau, wedi'i hwyluso gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau cysondeb yn y negeseuon a roddir gan elusennau a Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiect Cryfhau Cymunedau Ffermio Gwledig i bennu effaith Brexit ar iechyd a llesiant cymunedau ffermio gwledig yng Nghymru.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn parhau i weithio'n agos gydag elusennau gwledig, gan gyfeirio ffermwyr atynt. | Llywodraeth Cymru |
| Darparu adnodd ar gyfer llinell gymorth Llywodraeth Cymru i'r cyhoedd | Bydd oriau agor canolfan gyswllt Llywodraeth Cymru (0300 060 4400) yn cael eu hestyn i 8am i 9pm (Llun-Gwener) a 9am i 5pm (penwythnosau) bythefnos cyn y diwrnod ymadael. Mae hyn yn dyblu'r | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | oriau y gall y cyhoedd gysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Bydd pob ymholiad sy'n ymwneud â busnes yn cael ei gyfeirio drwy linell gymorth Busnes Cymru ar 0300 060 3000. | |
| Darparu systemau gweithredol, er enghraifft i gynnal llif masnach, diogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion. | Cysylltiad dyddiol ag adrannau Llywodraeth y DU ar amrywiol brosiectau gweithredol i ddarparu systemau a phrosesau newydd erbyn y diwrnod ymadael a chadarnhau sut bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn y dyfodol. | Cymysg. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn bennaf mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU; neu angen i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar Lywodraeth y DU. |
| Cymorth i ddarparwyr Gofal Cymdeithasol | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr gofal cymdeithasol er mwyn asesu gwendidau posib. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer cymorth ar draws y system a allai fod ar gael os bydd cynnydd sylweddol mewn costau staffio a/neu gyflenwi. | Llywodraeth Cymru |
| Gwasanaethau cymunedol | Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ymchwilio i effeithiau ar y trydydd sector – bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi y mis hwn.<br><br>Mae porth yn cael ei ddatblygu i helpu sefydliadau trydydd sector i gyrraedd at yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fod yn fwy cadarn ar ôl Brexit. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Perygl strategol: Straen ariannol.** Gallai'r cyfuniad o gythrwfl economaidd a gwleidyddol yn y DU, a'r effaith andwyol ar enw da, arwain at ansefydlogrwydd yn y marchnadoedd ariannol. Mae gwerth y bunt wedi syrthio'n gyson yn erbyn y ddoler a'r Ewro ers y refferendwm, gan syrthio eto dros yr wythnosau diwethaf wrth i'r ofnau am Brexit heb gytundeb ddwysáu. Bydd angen cymryd gofal a bod ar ein gwyliadwriaeth i sicrhau na fydd hyn yn achosi problemau mewn sectorau ariannol penodol. Gallai amrywiadau yn y gyfnewidfa dramor arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr, yn arbennig y rheini a fydd ar wyliau tramor. | | |
| Sefydlogrwydd ariannol cyffredinol | Mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiad uniongyrchol â Banc Lloegr a banciau manwerthu er mwyn deall y sefyllfa gyffredinol a phwyso am hyblygrwydd o ran benthyca i gefnogi busnesau. | Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei hymgysylltiad ei hun |
| | Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ymgysylltiad rheolaidd gyda Thrysorlys ei Mawrhydi ar lefel Gweinidogion a swyddogion er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried. | Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei hymgysylltiad ei hun |
| Diwydiant gwasanaethau ariannol Cymru | Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd o amgylch y bwrdd gyda Banc Datblygu Cymru. | Llywodraeth Cymru |
| **Perygl strategol: Dirywiad cyllid cyhoeddus**. Yn y tymor byr, byddai'r warant sydd wedi'i rhoi gan y Trysorlys mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r cyllid sy'n dod o'r UE i Gymru ar hyn o bryd, yn dod i rym, er bod gennym bryderon am rai elfennau o'r warant honno. Fodd bynnag, yn y dyfodol, efallai y bydd partneriaid yn yr UE yn gwrthod gweithio gyda sefydliadau fel prifysgolion yn y DU. Gallai hynny arwain at oblygiadau sylweddol, ac felly hefyd y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o'r UE a fydd gwneud cais am le ar gyrsiau. Yn y tymor canolig, mae'n debygol y bydd cyllid cyhoeddus yn dirywio'n sylweddol ac onid eir i'r afael â hynny drwy drethi uwch neu lefelau uwch o ddyled gyhoeddus, gallai hynny arwain at ragor o doriadau sylweddol i wariant cyhoeddus yn y meysydd datganoledig (ac yn y rheini sydd wedi'u cadw yn ôl). | | |
| Gwarant y Trysorlys | Mae Llywodraeth Cymru yn gwthio Llywodraeth y DU i gynnal yr addewid na fydd Cymru'n colli ceiniog o ganlyniad i ymadael â'r UE. | Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y warant yn gweithio i holl randdeiliaid Cymru, yn cwmpasu'r holl raglenni ariannu'r UE, ac na fydd yn arwain at fwlch yn y cyllid. | |
| Blaenoriaethu gwariant | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cyfalaf gwerth £85m ym mis Mehefin 2019, gan gynnwys £50m o fuddsoddiad mewn tai cymdeithasol a £10m i'r Gronfa Dyfodol yr Economi.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud dyraniadau cyfalaf pellach yn ystod y flwyddyn cyn hir i gefnogi economi Cymru. | Llywodraeth Cymru |
| Mynediad at gyllid ychwanegol | Datblygwyd cais ariannol clir i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU er mwyn cefnogi mesurau hanfodol i liniaru effeithiau ymadael heb gytundeb ar Gymru. | Llywodraeth Cymru |
| Erasmus+ a Horizon 2020 | Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Llywodraeth y DU i sicrhau bod modd parhau i gymryd rhan yng nghynllun Erasmus+ tan ddiwedd y cylch presennol (2020).<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod modd parhau i gymryd rhan yn llawn yn Horizon 2020, ac i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid yn lle'r cynlluniau sydd ar gau i drydydd gwledydd. | Llywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| **Perygl strategol: Ansicrwydd cyfreithiol** a fydd yn codi os bydd deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE ac sy'n cefnogi cymorth ariannol gan y llywodraeth, hawliau dinasyddion, neu amddiffyniadau statudol ar faterion amgylcheddol (ee llygredd), iechyd (ee diogelwch bwyd), economaidd (ee masnachol / data / cyfraith contractau / yswiriant) neu gymdeithasol (ee amddiffyn defnyddwyr, agweddau o gyfraith deuluol) yn diflannu heb gael deddfwriaeth ddigonol yn eu lle. Dylai'r Ddeddf i Ymadael â'r UE a'r cynlluniau ar gyfer is-ddeddfwriaeth ddiwygio ddilynol helpu i liniaru'r risg yma os bydd modd cwblhau'r holl ddeddfwriaeth ddiwygio. Gallai unrhyw anawsterau gael effaith sylweddol ar draws nifer o beryglon eraill. | | |
| Rhaglen o ddeddfwriaeth gywiro (Offerynnau Statudol) | Cyflawni'r rhaglen o ddeddfwriaeth gywiro. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i 147 o Offerynnau Statudol (OSau) Llywodraeth y DU.<br>Mae cyfanswm o 146 datganiad ysgrifenedig wedi cael eu gosod yn y Cynulliad Cenedlaethol.<br><br>Mae 41 OS wedi cael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma, a 2 arall wedi cael eu gosod. | Llywodraeth Cymru |
| Llif data personol rhwng yr UE a'r DU (a allai weld cyfyngiadau gan na fydd y DU bellach yn cael ei chyfrif â mesurau diogelu cyfatebol i Aelod-wladwriaethau yr UE). | Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu ei chontractau ac wedi trafod gyda chyflenwyr er mwyn cynyddu dealltwriaeth o storio a llif data, a gweithredu mesurau lliniaru gofynnol.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru adnodd penodol yn ei le i ymwneud â'r sectorau cyhoeddus a phreifat, i ategu eu paratoadau o ran data.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod gyda'r sector cyhoeddus gan ofyn iddynt adolygu eu contractau ac ystyried mesurau priodol i liniaru'r risg. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu gwasanaeth cynghori ar ddata, a fydd yn helpu i ddehongli cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas dda gydag Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | Llywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth y DU, sy'n arwain ar faterion data ac rydym wedi dylanwadu ar gynnydd ar y mater hwn. | |
| Cyngor ar baratoadau i ddinasyddion a busnesau | Mae gwefan Paratoi Cymru yn cynnwys cyngor i ddinasyddion a busnesau ynghylch paratoi ar gyfer Brexit.<br><br>Mae cyfarfodydd cyfathrebu dwywaith yr wythnos wedi'u trefnu gyda Llywodraeth y DU, a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer cydweithio yn ei le.<br><br>Mae cyngor penodol i fusnesau ynghylch paratoi ar gyfer Brexit ar gael ar Borth Brexit Busnes Cymru. | Llywodraeth Cymru |
| Gwladolion yr UE sy'n byw yng Nghymru | Dyfarnwyd grant i Cyngor ar Bopeth Cymru (yn gweithio gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig) i ddarparu gwasanaethau cynghori i ddinasyddion yr UE.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi hyfforddiant i weithwyr rheng flaen awdurdodau lleol.<br><br>Mae cyllid wedi cael ei ddarparu ar gyfer cydlynydd Preswylio'n Sefydlog yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth am Gynllun Preswylydd Sefydlog Llywodraeth y DU a gwasanaethau cynghori i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Newfields Law i ddarparu gwasanaeth cyfreithiol ar fewnfudo: i godi ymwybyddiaeth o'r angen i wladolion yr UE ymgeisio ar gyfer Cynllun Statws Preswylydd Sefydlog Llywodraeth y DU a chodi ymwybyddiaeth am gymorth ychwanegol sydd ar gael gan | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn darparu cyngor cyfreithiol ar achosion cymhleth. | |
| Effaith Brexit ar hawliau dynol a chydraddoldeb. | Mae gweithgor rhanddeiliaid yn ei le i ddeall yr effeithiau ac i roi sylwadau i Lywodraeth Cymru am gamau y dylid eu cymryd yn y dyfodol. | Llywodraeth Cymru |
| **Perygl strategol: Trafferthion gweithredol difrifol.** Os bydd systemau'r llywodraeth sy'n cefnogi darpariaeth cymorth ariannol, trwyddedu neu reoleiddio er enghraifft, yn cael eu heffeithio gan ymadawiad heb gytundeb, gallai peryglon gweithredol gwirioneddol godi. Er enghraifft, os na fydd cyrff newydd y DU sy'n disodli sefydliadau'r UE yn barod neu'n medru ysgwyddo'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan yr UE a'i hasiantaethau, fel ardystio diogelwch cynhyrchion. Gallai materion o'r natur hon gael effeithiau negyddol difrifol mewn rhannau eraill o'r economi. | | |
| Prosiectau paratoadau gweithredol Llywodraeth y DU | Mae nifer sylweddol o brosiectau ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ond cymysg yw'r darlun cyffredinol o ran ymgysylltiad gyda'r adran berthnasol o Lywodraeth y DU a'r paratoadau yn gyffredinol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso am gyfranogiad agosach, ac mae Llywodraeth y DU nawr wedi ymrwymo i ddwysau'r trafodaethau. | Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru |
| Effaith Brexit ar gontractau cyflenwyr Llywodraeth Cymru | Mae pob contract wedi cael ei adolygu, ac ar gyfer unrhyw beryglon sydd wedi'u nodi, mae mesurau lliniaru yn eu lle. | Llywodraeth Cymru |
| **Perygl strategol: Goblygiadau sicrwydd a diogelwch y cyhoedd,** os bydd unrhyw amharu ar gydweithrediad a rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau diogelwch y DU a'r UE. | | |
| Cydweithrediad a rhannu gwybodaeth gyda'r UE ar orfodi'r gyfraith a diogelwch | Er bod hyn yn gyfrifoldeb sydd wedi'i gadw yn ôl yn bennaf, mae gweithgarwch yn ymwneud â hyn yn hanfodol bwysig ar gyfer diogelwch pobl Cymru. Beth bynnag fydd yr amgylchiadau wrth ymadael, gan gynnwys ymadael heb | Llywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| | gytundeb, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Llywodraeth y DU i sicrhau'r cydweithrediad agosaf posib gyda'r UE ar ddiogelwch a gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys cymryd rhan mewn sefydliadau a systemau gwybodaeth perthnasol, a phob mesur posib wrth gefn. | |
| **Perygl strategol: Effeithiau ar y gweithlu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a busnesau.** Gallai gostyngiadau yn nifer gwladolion yr UE sy'n mewnfudo arwain at fethu llenwi swyddi a phrinder sgiliau mewn meysydd allweddol. Gallai Cymru – a'r DU – weld gwladolion yr UE sy'n byw yma ar hyn o bryd yn penderfynu gadael yn sgil ansicrwydd ynghylch eu hawliau; boed hynny'n golli hawliau mewn gwirionedd neu'r canfyddiad o "amgylchedd elyniaethus". | | |
| Effaith mudo ar y sector preifat | Fel rhan o'r gweithgarwch cadernid busnes, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y potensial ar gyfer hyfforddiant ychwanegol a mwy o gymorth i sectorau a fydd yn straffaglu i recriwtio os bydd llai o wladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn y gweithlu. | Llywodraeth Cymru |
| Effaith mudo ar y sector cyhoeddus | Mae effeithiau gostyngiad yn nifer y gweithwyr o'r AEE mewn sectorau allweddol wedi cael eu hasesu. Y maes sy'n gweld yr effaith fwyaf yw gofal cymdeithasol – mae strategaeth y gweithlu yn cael ei datblygu mewn ymateb.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU a'r Pwyllgor Cynghori ar Fudo mewn perthynas ag effaith newidiadau mewn patrymau mudo ar y sector cyhoeddus. | Llywodraeth Cymru |
| Effaith ar y sector Addysg Uwch | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector addysg uwch i ystyried effeithiau posib Brexit a rhoi sylw iddynt, yn arbennig Brexit heb gytundeb. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae hyn yn cynnwys pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y Cynllun Preswylio'n Sefydlog a pholisi mewnfudo'r DU yn y dyfodol yn diwallu anghenion y sector addysg uwch o ran staff a myfyrwyr.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid addysg uwch yng Nghymru ac yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau:<br><br>• bod cyfranogaeth i'r eithaf yn rhaglenni ymchwil Horizon yr UE, nawr ac yn y dyfodol, sy'n hanfodol ar gyfer addysg uwch a busnesau yng Nghymru<br>• bod modd i fyfyrwyr Cymru barhau i elwa ar raglenni symudedd, yn arbennig y manteision enfawr sy'n cael eu darparu gan Erasmus+<br>• bod Cymru yn parhau i groesawu myfyrwyr o'r UE, sy'n dod â manteision ariannol a diwylliannol sylweddol i Gymru, fel rhan o'n menter ehangach ar gyfer addysg uwch. | |
| Effaith ar addysg bellach a dysgu yn seiliedig ar waith | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector addysg bellach i roi sylw i effeithiau posib Brexit ar y sector. Mae hyn yn cynnwys pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw Cymru'n colli ceiniog o'r cyllid mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE, sy'n hanfodol ar gyfer addysg bellach, busnesau a miloedd o fyfyrwyr a phrentisiaid yng Nghymru. Mae angen eglurder a chadarnhad ynghylch cyllid ar fyrder arnom ni a'n partneriaid er mwyn paratoi'n briodol. | Llywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| | Fel sy’n wir gydag addysg uwch, rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod modd parhau i gymryd rhan yn rhaglenni hanfodol yr UE fel Erasmus+. | |
| **Perygl strategol:** Pe bai nifer sylweddol o **ddinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE ar hyn o bryd** yn dychwelyd i'r DU, gellid gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys mwy o alw ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Gallai fod goblygiadau hefyd i ddinasyddion y DU sydd am deithio dramor, er enghraifft o ran mynediad at ofal iechyd (cardiau EHIC) ac yswiriant. | | |
| Galw ychwanegol posib am wasanaethau cyhoeddus (iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai). | Mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith bosib nifer sylweddol o wladolion y DU (o bosib hyd at tua 10,000) yn dychwelyd o fyw yn yr UE ar yr angen am dai, gofal plant, addysg, llywodraeth leol, y trydydd sector a gwasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru. | Llywodraeth Cymru |
| Cyngor i bobl yng Nghymru | Lansiwyd gwefan Paratoi Cymru ym mis Ionawr, ac mae’n cael ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r sefyllfa a'r cyngor diweddaraf i bobl sy'n teithio i’r UE. Mae hynny'n cynnwys yr wybodaeth diweddaraf am ofal iechyd yn yr UE ac yswiriant iechyd, yswiriant ceir a gyrru yn yr UE, pasbortau a phasbortau anifeiliaid anwes, ffioedd ffonau symudol. | Llywodraeth Cymru |
| **Perygl strategol:** Gallai rhai o'r ffactorau uchod, yn unigol neu gyda'i gilydd, fod yn rhy aciwt i'w rheoli'n lleol. Os felly, gallai fod yn angenrheidiol asesu'r mater a'i drin fel **argyfwng sifil** a dilyn y systemau a'r gweithdrefnau sefydledig, wedi'u profi, sydd gennym i ymateb. Bydd hyn yn dibynnu ar y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn gweithio gyda phartneriaid eraill. | | |
| Integreiddio'n llwyr yng ngwaith Llywodraeth y DU ar argyfyngau sifil fel y bo'n briodol. | Mae Llywodraeth Cymru yn aelod gweithredol o'r grwpiau cynllunio perthnasol ar draws San Steffan a'r portffolios Gweinidogol. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu gallu o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn paratoi Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) i weithio'n gyson | Mae cynlluniau yn eu lle i weithredu Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru). | Llywodraeth Cymru |
| Cynnwys Fforymau Cymru Gydnerth i sicrhau bod effeithiau a pheryglon lleol a rhanbarthol yn cael eu nodi ac yn cael sylw mewn cynlluniau | Ymgysylltiad helaeth, rheolaidd gyda Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, llywodraeth leol, gwasanaethau brys ac asiantaethau ymateb eraill. | Llywodraeth Cymru |
| Cydlyniant cymunedol | Mae timau cydlyniant cymunedol rhanbarthol wedi cael eu hehangu a’u dwyn ynghyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi.<br><br>Bydd y cynllun Grant Cymunedau Lleiafrifol ar Droseddau Casineb, sy’n canolbwyntio ar fynd i’r afael â throseddau casineb, yn cael ei ddyfarnu ym mis Medi.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu’r Ganolfan Genedlaethol ar Adrodd a Chymorth Troseddau Casineb (Cymorth i Ddioddefwyr Cymru) i gefnogi dioddefwyr troseddau casineb. | Llywodraeth Cymru |

**Gwybodaeth ddefnyddiol**

https://llyw.cymru/paratoi-cymru

https://gov.wales/preparing-wales

https://bancdatblygu.cymru/

https://busnescymru.llyw.cymru/

https://businesswales.gov.wales/brexit/cy

**Llinell Gymorth Busnes Cymru**
Rhif ffôn: 0300 060 3000
Llun-Gwener, 8:30am tan 5:30pm

https://businesswales.gov.wales/cy/cysylltwch-a-ni

**Canolfan Gyswllt Llywodraeth Cymru**

0300 0604400

Llun-Gwener, 8:30am tan 5pm

cymorth@llyw.cymru

**Rhestr o'r prosiectau sydd wedi'u cefnogi trwy Gronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd hyd yn hyn.**

| **Cynllun/Prosiect** | **Swm** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| Cydnerthedd Busnes | £9.2m | I'w ddefnyddio dros dair blynedd i helpu cwmnïau i ddatblygu'r arbenigedd a'r prosesau newydd y bydd eu hangen arnynt i ffynnu ar ôl Brexit. |
| Hyfforddi a gwella sgiliau | £6.2m | Cymorth i'r gweithlu yn y sector modurol a'r diwydiant awyrofod i wella sgiliau'r gweithlu, gan wella'r siawns o ddatblygu safleoedd yng Nghymru fel y lleoliadau a ffefrir ar gyfer unrhyw fuddsoddiadau Ewropeaidd yn y dyfodol ac ar ôl Brexit. |
| Cymorth i'r sectorau ffermio, bwyd a physgota | £6.36m | Saith o brosiectau i gefnogi'r sectorau hyn, er enghraifft, datblygu'r cadernid, ymchwil a chymorth rheoleiddio ar gyfer cynllunio busnes yn y dyfodol, ymchwil i reoli pysgodfeydd yn y dyfodol a datblygu gwerthoedd brandiau cynaliadwy. |
| Cymorth i Brifysgolion Cymru | £3.5m | Rhaglen Global Wales II prifysgolion Cymru i ysgogi partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel man astudio ar ôl Brexit. |
| Cryfhau Cydlyniant Cymunedol | £1.52m | Ehangu'r rhaglen ranbarthol ar gyfer cydlyniant cymunedol rhanbarthol gan sicrhau bod Cymru'n wlad gymhwysol nad yw'n goddef unrhyw senoffobia, hiliaeth na rhagfarn. |
| Cymorth i'r awdurdodau lleol | £1.41m | Darparu cymorth i'r awdurdodau lleol yn uniongyrchol, a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ymateb i Brexit. |
| Hawliau Dinasyddion yr UE yng Nghymru | £1.28m | Cymorth i sefydliadau yng Nghymru i baratoi dinasyddion yr UE nad ydynt o'r DU ar gyfer Brexit. |
| Trechu Trosedd Casineb a'r Cynllun | £1.2m | Cyllid a chymorth ar gyfer Cymorth i Ddioddefwyr Cymru a chynllun sy'n cynnig grantiau un tro i sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a chymunedau ffydd lleiafrifol |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu ar Gydlyniant Cymunedol | | |
| Paratoi'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer Brexit | £0.75m | Nifer o brosiectau sy'n cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall a pharatoi ar gyfer Brexit yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid i Gydffederasiwn y GIG yng Nghymru, cyllid i gymryd rhan yn rhaglen Epidemioleg Maes y DU, ac ymchwil ar y gweithlu Gofal Cymdeithasol. |
| Trefniadau a fydd yn olynu cronfeydd strwythurol yr UE | £0.59m | Estyn y paratoadau ar gyfer trefniadau a fydd yn olynu cronfeydd strwythurol yr UE, gan adeiladu ar waith i gefnogi gweithredu model buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE. |
| Statws Preswylydd Sefydlog a Chyngor ar Fewnfudo | £0.5m | Cyllid ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth, gan gynnwys cyngor ynghylch mewnfudo, i helpu dinasyddion Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru a'u cefnogi i ymgeisio'n llwyddiannus am statws preswylydd sefydlog. |
| Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | £0.5m | Cymorth i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gyflawni eu rolau wrth orchymyn, rheoli a chydgysylltu'r trefniadau ar gyfer paratoadau Brexit yng Nghymru. |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | £0.47m | Gwella gallu'r Asiantaeth Safonau Bwyd i fod yn barod yn weithredol ar gyfer y gwaith pontio sydd o'n blaenau. |
| Cymorth i'r Heddlu | £0.43m | Cyllid ar gyfer cydnerthedd partneriaeth yr Heddlu, i alluogi gwasanaethau Heddlu Cymru i gefnogi paratoadau Brexit. |
| Datblygu dull gweithredu buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol | £0.35m | Meincnodi mewn partneriaeth ag OECD i lywio ein dull gweithredu buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol a rhoi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar waith. |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | £0.15m | Ymchwil i sut y gallai proses Brexit effeithio ar Wasanaethau Cymunedol yng Nghymru a helpu'r trydydd sector i gynllunio ar gyfer pob sefyllfa bosibl. |